# Y Ddistyllfa Whisgi

ROYAL
WELSH WHISKY
AS SUPPLIED TO
HER MAJESTY THE QUEEN AND
H.R.H. THE PRINCE OF WALES.

ABSOLUTELY PURE MALT.

SIX YEARS OLD GUARANTEED.

42s. PER DOZEN CASE CARRIAGE PAID.

Distillery:
Frongoch, Bala.
District Offices.
19, Nelson-street, Bristol.

Obtainable through all
Wine & Spirit Merchants
16119—1175

*South Wales Daily News*
**13 Tachwedd, 1897**

# Yr Almaenwyr

FRONGOCH.

Mae yma baratoad mawr yn myned yn mlaen ar gyfer y carcharorion Germanaidd a ddisgwylir i'r ardal mewn ychydig wythnosau. Disgwylir 600 heblaw cant o filwyr Prydeinig i ofalu am danynt. Ymhlith y 600 dywedir fod 150 o honynt yn perthyn i'r 'Prussian Guard!'

*Y Llan*
**24 Rhagfyr, 1914**

FRONGOCH.

**Y Germaniaid.**—Mae adeiladau y Gwaith Wisci yn Frongoch wedi ei cymeryd gan y Llywodraeth i gadw carcharorion Germanaidd. Mae nifer wrthi yn brysur yn paratoi y lle, a daw tyrfa yn chwanegol yr wythnos nesaf. Disgwylir dros fil ohonynt. Gwarchodir hwy gan nifer o filwyr, a bydd gwifrau pigog a thrydanol yn cael eu rhoi o gylch y lle. Goleuir y lle gyda thrydan. Disgwyliai'r awdurdodau y byddai'r lle yn barod erbyn dydd Iau nesaf, ond ofnir na bydd.

*Yr Adsain*
**1 Rhagfyr, 1914**

GERMANIAID FRONGOCH.

Yn Llys Ynadon Bala ar gais y Cadeirydd, pasiodd yr Ynadon y penderfyniad a ganlyn: "Yr ydym ni Ynadon Dosbarth Penllyn, yn dymuno datgan ein barn y bydd prinder llafurwyr amaethyddol yn y dosbarth yn ystod y cynhauaf agoshaol, a gorchwyl ereill, ac felly yn dymuno datgan ein barn mai da fyddai i'r awdurdodau milwrol ganiatau i'r Germaniaid sy'n garcharorion yn Frongoch gael eu llogi at wasanaeth ffermwyr y dosbarth.

*Yr Adsain*
**22 Mehefin, 1915**

GERMAN PRISONERS AT FRONGOCH.

Railway coaches were brought to Frongoch Station, near Bala, yesterday, for the conveyance of 1500 German prisoners who are being sent to France and Belgium for reconstruction work.

***The North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality***

**25 Ebrill 1919**

CYNLLUN ADDYSG Y RHYFEL BYD CYNTAF 1914-1918

## CARCHARORION GERMANAIDD YN DIANC O FRONGOCH.

Cyffrowyd yr ardaloedd yn Ngogledd Cymru gan y newydd i bedwar o'r carcharorion Germanaidd sydd yn Frongoch, ger y Bala, er's dros flwyddyn bellach ffoi oddi yno. Fel y gellid dysgwyl taenwyd pob math o chwedlau yn eu cylch, sut y bu, ac i ba le yr aethant. Ond yr oedd y pedwar a'u traed yn rhyddion beth bynag. Mynai rhai iddynt ei gwneyd am yr Arenig, eraill i ffordd Ceryg, eraill i'r Ysbyty, ac eraill yn dweyd eu bod wedi eu gweled yn Nhalsarnau. Nid oedd siw o'u hanes am ddeuddydd, pryd y caed pob sicrwydd iddynt fynd drwy'r Ceryg yn gynar yn y boreu. Olrheiniwyd hwy i gyfeiriad Rhuthyn, ond erbyn y dydd dylynol yr oedd ardal Llandegla yn gyffro drwyddi, a heddweision o gwmpas yn trefnu i gau i fewn y pedwar. Aeth yr heddwas Howell Edwards, Bwlchgwyn, atynt, i ofyn eu hanes, pwy oeddynt, o ble y daethant. Yr ateb oedd mai o Ruthyn, a galwent eu hunain ar enwau Cymreig—William Jones, John Roberts. Dywedodd yr heddwas ei fod yn credu mai carcharorion o Frongoch oeddynt, a'i fod yn eu cymeryd i fyny. Yna addefasant y cwbl, ac mai camgymeriad ar eu rhan oedd teithio yn y dydd. Hwylio am Lerpwl yr oeddynt. Meddent map bychan wedi ei linellu ar ddau neu dri o gardiau gwahanol yn nodi prif gyfeiriadau Gogledd Cymru. Caed tua 15p. mewn arian nodau ganddynt, a bwyd. Mae'n ddirgelwch hyd yma sut y llwyddasant i ddianc. Nid oedd y pedwar yn yr un adran o'r wersyllfa—mewn pedair wahanol. Wedi eu dwyn i Wrecsam, cyrchwyd hwy yn ol i'r Wersyllfa, ac yno y trefnir yr ymchwiliad milwrol, ac y rhoir cosb arnynt. Yr oedd dau o honynt dros chwe' troedfedd o daldra.

***Y Drych***
**18 Mai, 1916**

## FRONGOCH.

### Claddu Carcharor Germanaidd.

Ddydd Mawrth diweddaf, yn Mynwent Frongoch, claddwyd un o'r carcharorion Germanaidd fu farw yn y gwersyll o'r Pneumonia. Gwasanaethwyd gan offeiriad Pabyddol, ac yr oedd tua dau gant o'r Germaniaid yn dilyn yr elor, gyda Seindorf ar y blaen, a chor. Aeth tyrfa fawr o'r Bala i weled y gladdedigaeth.

***Yr Adsain***
**6 Awst, 1918**

## GERMANS LEAVE FRONGOCH CAMP.

The last batch of German prisoners, numbering 2,280, were despatched on Wednesday and yesterday, from the Frongoch Camp, near Bala, which has been used as an internment camp for prisoners since 1914.

***North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality***

**Tachwedd 21, 1919**

CYNLLUN ADDYSG
Y RHYFEL BYD CYNTAF
1914–1918

# Y Gwyddelod

## Y GWYDDELOD YN FRONGOCH.

Gofynodd Mr. A. Byrne (N. Dublin) i Mr. L. Ginnell, a oedd yn gwybod am yr oediad yn nghyflwyniad llythyrau a pharseli i'r Gwyddelod (Sinn Feiners) sydd yn nghamp Frongoch, ac fod y bwydydd anfonir iddynt gan gyfeillion o herwydd hynny yn mynd yn ofer.

Mr. Tennant a ddywedai fod y llythyrau a'r parseli yn cael eu harolygu gyntad ag oedd modd, ac nid oedd unrhyw achos o fwyd wedi mynd yn ofer wedi dod dan ei sylw. Gwneir trefniadau i arolygu parseli a llythyrau yn gynt, a threfnir i gael iddynt bapyrau newyddion Gwyddelig

Sir Edward Carson.—Lle mae Frongoch.

Mr. Tennant.—Yn Nghymru.

Mr. J. P. O'Connor.—Gan fod y lle hwn dipyn yn anghysbell, oni all yr awdurdodau ganiatau i'r personau sydd yn myned yno i edrych am danynt gael mwy na chwarter awr o amser gyda hwy.

Mr. Tennant.—Mae yn dibynu ar faint o swyddogion a milwyr sydd yn gofalu am y lle—edrychaf beth allaf wneud.

*Y Dydd*
**18 Mehefin, 1916**

## NO BLACK BREAD AT FRONGOCH INTERMENT CAMP.

In Parliament, last Wednesday, referring to the Irish Rebels at Frongoch Camp, Bala, Mr. Samuel denied categorically that black bread is supplied, or that they were yoked to wagons, or had been punished for declining work in Quarries. The American Embassy has inspected the buildings and given an excellent report.

" We don't believe you " snapped out Mr. Healy.

" The hon. member's discourtesy," retorted the Home Secretary amid loud cheers, " does greater discredit to him than it causes inconvenience to me."

Many men now interned may be released if they would undertake to refrain from rebellion " at any rate, for the period of the war."—(Loud laughter).

*Yr Adsain*
**24 Hydref, 1916**



CYNLLUN ADDYSG
Y RHYFEL BYD CYNTAF
1914–1918

## FRONGOCH CAMP

### IRISH PRISONERS AND THE ROLL-CALL.

A military court (says the *Manchester Guardian*) sat on Saturday to try charges against fifteen of the Irish prisoners in the Frongoch internment camp, near Bala. The court was held by virtue of the Royal Warrant of August 3rd, 1914, "for maintaining discipline among prisoners of war." Major E. E. Husey, of the Cheshire Regiment, was the president, and the other members were Captain and Hon. Major F. Fanning Evans and Capt. C. C. Doran. Lieut.-Col. Ivor Bowen was present as judge advocate. The military prosecutor was Lieut. W. Ll. Jones, and the accused men were represented by Mr George Gavan Duffy.

Each of the fifteen prisoners was tried separately, though the same charge was preferred against all—namely, that after being warned by the commandant, they deliberately refused to answer to a roll-call. Except in one case, where the defence was mistaken identity, the accused men all admitted their failure to answer to their names, but pleaded the special circumstances in which the roll was called as a justification of their conduct. The whole interest of the trial lay in the explanation given of their special circumstances and in some important legal points raised by Mr Duffy as to the jurisdiction of the court and the constitutional efficiency of the Royal Warrant.

***North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality***

**1 Rhagfyr, 1916**

## IRISH PRISONERS RELEASED FROM FRONGOCH CAMP.

One hundred and forty-six Irish prisoners, released from Frongoch Camp, Merionethshire, arrived in Dublin on Saturday. There was no demonstration in the streets and the only cheers heard were those given by the Galway men as they passed the ruins of the General Post Office in Sackville-street. The 40 prisoners belonging to Dublin reached North Wall early on Saturday morning and marched to their homes in the city.

On Sunday morning another batch of men arrived in the city. Some of them spoke of the kindness of the camp surgeon. They also spoke of the kindly disposition of the camp adjutant, who shook hands with them when they left.

***North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality***

**29 Rhagfyr, 1916**